

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

*Proffil Ardal Weinidogaeth*

# Bro Cyngar

# *Ficer ac Arweinydd Ardal Weinidogaeth*

Rydym yn chwilio am offeiriad i wasanaethu ac arwain yn Ardal Weinidogaeth Bro Cyngar yn Esgobaeth Bangor. Mae Bro Cyngar yn cwmpasu rhan ganolog o Ynys Môn ac yn gwasanaethu tref Llangefni a'r cymunedau lleol o'i hamgylch. Mae'n ardal brydferth o gefn gwlad tonnog, gyda'r dref, pentrefi a phentrefannau, a hen gefnffordd yr A5 a ffordd ddeuol fodern yr A55 yn rhedeg ar ei thraws. Fe'i gwasanaethir gan nifer o'n heglwysi. Mae amrywiaeth o weithgareddau masnachol, diwydiannol, amaethyddol a thwristaidd yn mynd rhagddynt yn yr ardal, ac mae yna amrywiaeth eang o grwpiau oedran, o feithrinfeydd i gartrefi nyrsio.

Rydym yn chwilio am Arweinydd Ardal Weinidogaeth sydd â chariad at Dduw a phobl sydd â'r dychymyg gweddigar i ddatblygu gweledigaeth a'r profiad ymarferol a'r doethineb i'w harwain a'i thyfu.

Rydym yn chwilio am rywun:

- Sydd â phrofiad o weithio gyda Chyngor yr Ardal Weinidogaeth ac sy'n ymrwymedig i weithio gyda'r Cyngor i gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol o ran cenhadaeth, eiddo a chyllid.
- Sy'n ymroddedig i weithio ar y cyd, ac a fydd yn nodi ac yn annog potensial pobl eraill, gan annog galwedigaeth unigol a chyfunol ar gyfer datblygu cenhadaeth a gweinidogaeth.
- Sy'n agored i feithrin cydberthnasau byw ag eglwysi Cristnogol lleol eraill.
- Sy'n frwd dros ddatblygu ein cyfranogiad cymdeithasol a chymunedol ar draws grwpiau oedran ac ieithoedd er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu ag anghenion y byd a'r greadigaeth.
- Sy'n barod i ymgysylltu'n ddwfn â'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg. Bydd siaradwr Cymraeg rhugl neu ddysgwr sydd wrthi'n datblygu ei sgiliau Cymraeg yn gartrefol iawn yma. Er bod y gallu i weithredu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg yn ddymunol, byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau gan y rhai sy'n barod i ddysgu mewn ffordd ymdrochol wrth ymgymryd â'r swydd, gyda chymorth parhaus. Fel esgobaeth, rydym yn gyfarwydd iawn â chynnig darpariaeth i alluogi offeiriaid i ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Sy'n gyfarwydd ag amrywiaeth eang o sgiliau TG a chyfathrebu, gyda ffocws ar ddatblygu ffyrdd newydd o gysylltu.
- Sy'n gallu arwain o fewn nifer cynyddol o gymunedau amrywiol, yn strategol ac yn fugeiliol.

# *Esgobaeth Bangor*

Rydym yn gymuned Gristnogol fywiog gyda hanes cyfoethog sy'n dyddio'n ôl i'r bumed ganrif, wedi'i gwreiddio yn nhraddodiadau seintiau Celtaidd cynnar er enghraifft Deiniol, Cybi, Seiriol, Tudwen, Madryn, ac eraill. Mae'r seintiau hyn wedi'u hanfarwoli yn enwau ein heglwysi, ein pentrefi a'n trefi.

Er bod ein cenhadaeth yn parhau i fod yn gadarn dros fileniwm a hanner, mae ein cyd-destun cyfoes yn cyflwyno cyfleoedd newydd a heriol. Mewn ymateb, rydym wedi cofleidio gweledigaeth o ddilyn Iesu gyda brwdfrydedd o'r newydd a dulliau arloesol. Rydym wedi sefydlu tair egwyddor allweddol, tair blaenoriaeth, tri chynllun, a thri llwyfan newydd i arwain ein taith.

Darllenwch fwy am y rhain ar ein gwefan.

Mae ein hymrwymiad yn troi o amgylch tair egwyddor weledigaethol y credwn y dylent ddiffinio ein bywyd cymunedol:

- Addoli Duw.
- Tyfu'r Eglwys.
- Caru'r byd.

Rydym yn eich croesawu i ymuno â ni yn y genhadaeth drawsnewidiol hon, wrth i ni wneud ein ffordd trwy heriau ein hamser gyda ffydd, ymroddiad, ac ymrwymiad i addoli, twf a chariad.



Esgobaeth Bangor | BBC Pilgrimage 2024



# Cyflwyno Bro Cyngar

Mae Bro Cyngar yn gyfoethog o ran hanes, natur a diwylliant. Dyma'r unig Ardal Weinidogaeth dirgloëdig ar yr ynys, er nad yw'r arfordir yn bell o unrhyw le.
Tref Llangefni yw'r ganolfan boblogaeth fwyaf (yr ail dref fwyaf ar Ynys Môn gyda phoblogaeth o dros 5,500). Llangefni hefyd yw canolfan weinyddol a thref sirol yr ynys a lleolir pencadlys Cyngor Ynys Môn yn y dref. Mae ei hanes yn dyddio o ddechrau'r Canol Oesoedd pan oedd yn bentref bach ymhlith cymunedau amaethyddol. Datblygodd wedyn yn ganolfan ar gyfer y fasnach wlân a rhoddwyd siarter iddi gan Frenin Edward I.
Ym 1785, cynhaliwyd y farchnad anifeiliaid a chig gyntaf yng nghanol y dref, a dyfodd i fod yn farchnad gyffredinol ac yn farchnad da byw ffyniannus a barodd tan bron i ddiwedd yr 20fed ganrif.

Mae Llangefni wedi parhau i dyfu ac i ffynnu. Yn yr 21ain ganrif, mae'r dref, a'r ardal, fel pobman arall, wedi gorfod ymladd dirwasgiad cyffredinol ac mae'n ymdrechu i ailsefydlu ei hun fel canolfan bwysig. Er bod y brif stryd wedi colli rhywfaint o'i sglein, mae datblygiadau cyffrous yn dangos

bod yna obaith ar gyfer y dyfodol ac mae'r A55 a'r A5 o fewn cyrraedd hawdd i gysylltu â Chaergybi a'i phorthladd rhydd (20 munud), Bangor (¼ awr) a gweddill gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr unwaith y croesir un o'r pontydd dros y Fenai.

Sefydlwyd Ystad Ddiwydiannol, sy'n parhau i ddenu busnesau newydd i'r ardal a chynnig cyfleoedd gwaith. Mae Llangefni, unwaith eto, yn ganolfan farchnata a siopa (siopau bwyd yn benodol), yn fan gwaith prysur lle gellir dod o hyd i holl hanfodion bywyd. Mae yna ddwy feddygfa, deintyddion, ac optegwyr ar y stryd ac mae Ysbyty Cefni wedi'i leoli gerllaw. Lleolir gwasanaethau bancio ar gyfer yr ynys yma hefyd. Mae yna Swyddfa Bost a Chanolfan Dosbarthu Llythyrau ar yr Ystad Ddiwydiannol ynghyd â Gorsaf Heddlu. Gyda thwf yn y boblogaeth a gobaith am gyfleoedd gwaith newydd yn y sir, mae un ysgol gynradd newydd wedi cael ei hadeiladu ac mae un arall wedi cael ei hehangu, gyda'r Ysgol Gyfun a safle Coleg Menai, a sefydlwyd yn ddiweddar, yn darparu cyrsiau addysg uwchradd a thrydyddol. Mae Canolfan Addysg y Bont, sy'n cynnig addysg i'r rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth, wedi'i lleoli yma hefyd.



O ran adnoddau hamdden, mae yna ddewis eang gyda Llyfrgell ganolog, Archifau, pwll nofio a Chanolfan Hamdden Plas Arthur, ac Oriel Môn sy'n arddangos gwaith Charles Tunnicliffe a Kyffin Williams ac eitemau sy'n berthnasol i hanes yr ynys.

Mae timau pêl-droed a rygbi yn gystadleuol yn eu cynghreiriau. Mae yna nifer o leoedd cyfarfod o fewn cyrraedd hawdd, gan gynnwys Theatr Fach, ac mae traethau Ynys Môn o fewn cyrraedd hawdd, felly hefyd lwybrau beicio a cherdded sy'n cynnwys Llyn Cefni, Cors Ddyga a Gwarchodfa Natur Nant y Pandy, sy'n gartref i gymuned o wiwerod coch.

Nodir manylion y cymunedau eraill gyda'r eglwysi isod.

# Bywyd yr Eglwys

Mae chwe eglwys, mynwentydd eglwysi nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach, a neuadd eglwys yn yr Ardal Weinidogaeth. Maent yn gartref i gymunedau cynulleidfaol penodol Llangefni, Bodwrog a Llandrygarn, Bodffordd a Heneglwys, Gwalchmai, Llangwyllog a Thregaian.

Offeiriad cyfredol yr Ardal Weinidogaeth yw'r Arweinydd Ardal Weinidogaeth cyflogedig. Caiff ei gefnogi gan offeiriaid sydd wedi ymddeol, Darllenydd, a thîm addoli mewn un gynulleidfa. Mae yna wirfoddolwyr gweithredol ym mhob eglwys, ynghyd â'r wardeiniaid, sy'n sicrhau bod modd addoli ar ddydd Sul a chynnal gweithgareddau yn yr wythnos.

Mae'r Ardal Weinidogaeth wedi'i gwasanaethu a'i llywodraethu gan Gyngor yr Ardal Weinidogaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob eglwys. Mae hyn yn datblygu hunaniaeth gydlynol ar gyfer yr Ardal Weinidogaeth, ac yn sicrhau bod natur unigryw pob cymuned eglwys unigol yn cael ei chynnal ar yr un pryd.

O ran cenhadaeth a phosibiliadau ar gyfer y weinidogaeth, gallwn nodi thema gref o 'gysylltu', lle mae gwahoddiadau a chyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i ni dystio mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Mae gan Ysgol Corn Hir (ysgol gynradd â 245 o ddisgyblion ar y gofrestr), a adeiladwyd yn ddiweddar, Ysgol y Graig sydd wedi'i hehangu (ysgol gynradd â 362 o ddisgyblion ar y gofrestr), ac Ysgol Gyfun Llangefni (ysgol uwchradd â 717 o ddisgyblion ar y gofrestr), yn ogystal ag ysgolion y sonnir amdanynt mewn mannau eraill yn y proffil hwn, gysylltiadau cryf â'r gymuned ehangach, lle gall eglwysi lleol gynnig cefnogaeth a gwasanaeth.

Mae 'Agor Y Llyfr' wedi cael ei gynnig yn y gorffennol yn Ysgol Gymunedol Bodffordd, a chafwyd ymatebion cadarnhaol i wasanaethau Christingle a gynigiwyd i ysgolion cynradd lleol a theithiau o amgylch adeiladau eglwysi i ysgolion.



Mae gwaith ecwmenaidd ar y cyd wedi darparu lleoedd cynnes, casgliadau banc bwyd a chefnogaeth ar gyfer lleoedd sy'n wynebu gwrthdaro; mae canu carolau Shine Your Light yn y dref a gwasanaeth Coeden Goleuadau yn Sant Cyngar yn rhai enghreifftiau o'r ffyrdd yr eir ati i ymgysylltu â'r cyhoedd. Cymerir rhan mewn diwrnod gweithgarwch yn yr haf drwy gysylltiad a chydweithrediad â'r Cyngor Tref; mae Brownies a Sgowtiaid yn llogi neuadd yr eglwys; ac mae Coleg Menai, gyda'i gyfleusterau hyfforddi ac addysgol niferus, yn cynnig cyfle gwych na fanteisiwyd arno hyd yma i gysylltu.





Mae Neuadd yr Eglwys yn Llangefni ei hun yn barod i'w datblygu. Mae grwpiau o bob oedran a diddordeb yn defnyddio'r neuadd ar hyn o bryd ond, gyda rhywfaint o waith a dychymyg, gellir gwneud llawer mwy o ddefnydd ohoni fel hwb cymunedol.



# *Eglwys Sant Cyngar, Llangefni*



Mae'r Eglwys (rhestredig Gradd II) a'i Neuadd Eglwys ar wahân mewn lleoliad cyfleus gyda maes parcio sylweddol (sydd o dan ofal y Cyngor Sir) ar gyrion y dref. Adeiladwyd yr adeilad presennol ym 1824 am fod yr un blaenorol yn rhy fach i dref oedd yn tyfu. Gwnaethpwyd ychwanegiadau pellach, ac adeiladwyd y porth i'w mynwent ym 1890. Mae ganddi wydr lliw arbennig, gan gynnwys un ar thema'r Greadigaeth a gyflwynwyd i'r eglwys yn 2021. Creiriau hynaf yr eglwys yw'r Garreg Culidorus sy'n dyddio o'r 5ed ganrif, deial haul o 1673, cafn neu gawg dŵr swyn (o'r 12fed ganrif), cist bren hynafol (1811) a bedyddfaen wythonglog. Mae ganddi Dŵr Clychau gyda thair cloch sy'n dyddio o 1868.

Mae aelodau'r ddwy gynulleidfa (Cymraeg a Saesneg) yn helpu gyda gwasanaethau ar y Sul, ac mae'r eglwys a'r Ardal Weinidogaeth yn ffodus iawn i gael help Archddiacon sydd wedi ymddeol a Darllenydd Lleyg.
Cynhelir dau wasanaeth ar foreau Sul yn Llangefni, gwasanaeth Cymraeg am 9.30am a gwasanaeth Saesneg am 11am. Y patrwm addoli sy'n cael ei ddilyn yw'r Ewcarist Sanctaidd ddwywaith y mis gydag aelodau'r gynulleidfa yn arwain Gweddi'r Bore ar ddau ddydd Sul. Ar bumed dydd Sul y mis, cynhelir gwasanaeth yn un o eglwysi eraill yr Ardal Weinidogaeth a chynhelir cinio Dewch a Rhannwch wedyn, pan fydd amgylchiadau yn caniatáu.

Hefyd, cynhelir Cymundeb Sanctaidd dwyieithog ar foreau Mercher a Chymundeb Sanctaidd yn Hafan Cefni bob mis. Mae nifer o sefydliadau trefol yn cynnal gwasanaethau arbennig yn yr Eglwys e.e. Sul y Maer ac ati.

# *Sant Llwydian, Bodffordd (Heneglwys)*



Mae adeilad presennol yr eglwys (rhestredig Gradd II) wedi'i leoli ychydig y tu hwnt i gyrion Bodffordd, pentref bach sydd wedi cadw ei Gymreictod. Cynhelir gwasanaeth bob bore dydd Sul. Mae'r traddodiad Cymreig yn fyw ac yn iach yn y pentref, gyda chymdeithas lenyddol ac eisteddfod flynyddol.

Mae yna ddau gapel, ysgol gymunedol â neuadd gyfarfod brysur, ac ystad ddiwydiannol gerllaw ym Mona, ar yr A5. Gerllaw'r ystad mae Maes Awyr Mona a ddefnyddir gan awyrennau'r Llu Awyr Frenhinol o'r Fali a chan awyrennau preifat.

Yn yr enw Hen Eglwys, mae'r 'hen' yn golygu 'blaenorol' yn hytrach na 'hynafol'. Ystyr Llwydia[o]n yw 'bendigaid'.






# *Sant Trygarn, Llandrygarn*



Eglwys wledig yw Sant Trygarn sydd wedi'i lleoli oddi ar y B5109 sy'n rhedeg drwy gefn gwlad agored hyfryd sy'n nodweddiadol o gefn gwlad Cymru, yng nghanol Ynys Môn. Mae cymuned fywiog ac agos iawn yn yr ardal lle mae nifer o weithgareddau'n cael eu cynnal, ac mae'r eglwys yn chwarae rhan fawr yn y gweithgareddau lleol hyn.

Mae'r gynulleidfa yn cynnwys ystod eang o oedrannau sy'n awyddus i gymryd rhan mewn gwasanaethau ac i redeg yr eglwys. Mae'r adeilad mewn cyflwr eithaf da ac mae'r aelodau'n ceisio gofalu amdano a chynnal gwaith cynnal a chadw yn ôl yr angen.

Mae'r ardal yn cynnwys pedwar pentref bach sydd â phoblogaeth o tua 1000, a nifer o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol lleol. Yn ogystal â'r eglwys, mae yna bedwar capel yn yr ardal. Ym mhentref Llanfaes mae yna Neuadd Goffa sy'n lle cyfarfod prysur i bobl leol ac i sefydliadau fel côr meibion Hogia Bodwrog a chôr merched Genod y Gwyndy, a'r gangen leol o Ferched y Wawr.

Mae hefyd yn lleoliad ar gyfer cyngherddau a phartïon canu carolau, heb anghofio'r Bingo Gwobrau a gynhelir i godi arian ar gyfer yr eglwys!

# *Sant Morhaiarn, Gwalchmai*



Mae Eglwys Sant Morhaiarn (rhestredig gradd II*) wedi'i lleoli ar yr ochr chwith yn rhan isaf Gwalchmai, oddi ar gefnffordd yr A5. Mae'r pentref wedi'i leoli tua 5 milltir i'r gorllewin o Langefni ac fe'i rhennir yn Gwalchmai Isaf a Gwalchmai Uchaf. Mae trigolion o'r pentref a thu hwnt yn ymweld yn rheolaidd â thir yr eglwys sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda; ar y tir, mae yna lwybr troed cyhoeddus a ddefnyddir yn gyson fel llwybr llygad rhwng rhannau uchaf ac isaf y pentref. Mae adnoddau'r pentref yn cynnwys Ysgol Gymunedol y Ffridd, capel, meddygfa, siop a swyddfa bost, tafarndy, a Chanolfan i Bensiynwyr. Nid nepell i ffwrdd mae Llyn Hendref a Chors Bodwrog (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig).

Gwalchmai yw'r pentref agosaf i Sioe Amaethyddol Sir Fôn ar yr A5.

Cynhelir gwasanaethau eglwys yn ddwyieithog. Buont yn cael eu cynnal yn wythnosol ond, ar hyn o bryd, fe'u cynhelir bob pythefnos. Cynhelir bedyddiadau, priodasau ac angladdau yn achlysurol hefyd. Er gwaethaf gostyngiad sylweddol ym maint y gynulleidfa dros y degawd diwethaf, mae'r eglwys a'r fynwent yn dal i fod yn rhan hollbwysig o'r pentref.

# *Sant Cwyllog, Llangwyllog*




Mae'r adeilad eglwys hwn o'r Oesoedd Canol (rhestredig Gradd II*), gyda ffitiadau mewnol o'r 18fed ganrif ac ystafell ysgol o'r 19eg ganrif y tu hwnt i ochr orllewinol yr eglwys, yn lle diddorol ar ddiwedd lôn mewn ardal hyfryd o gefn wlad, tair milltir o Langefni. Ar hyn o bryd, cynhelir gwasanaeth unwaith y mis ers i'r eglwys ailagor ym mis Medi 2023 ar ôl problemau gyda deunydd yn disgyn o'r nenfwd mewnol.

Mae gweithgarwch cadarnhaol y gynulleidfa hon yn wyneb yr her wedi bod yn nodedig, wrth iddi gysylltu â busnesau lleol a'r Cyngor i godi arian, ac maent wedi bod yn datblygu gweledigaeth ar gyfer dyfodol yr adeilad gyda'i gilydd. Mae'r dyfodol hwnnw yn cynnwys cyfleoedd o ran twristiaeth leol a phererindod ffydd, a photensial ar gyfer gweithdai addysgol a dathliadau. Mae aelodau gweithredol a phobl gefnogol o'r gymuned yn cyfarfod i gynllunio a threfnu.

Mae atgyweirio ac adfer Eglwys Llangwyllog yn golygu mwy na gwelliannau strwythurol. Mae'n ymwneud â chynnal a pharhau i ddatblygu lle cymunedol sydd, ers cenedlaethau, wedi meithrin anghenion ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol ein cymuned wledig.

# *Sant Caian, Tregaian*



Mae Sant Caian (rhestredig Gradd II*) yn eglwys fach wledig tua thair milltir o Langefni sydd wedi cael ei chadw ar agor gan ei chynulleidfa ymroddedig fach. Fel llawer o fannau eraill ar Ynys Môn, mae Tregaian wedi'i leoli mewn ardal wledig amaethyddol, nid nepell o Gapel Coch ar y ffordd i Faenaddwyn.



# O Ddiddordeb?

Mae Ardal Weinidogaeth Bro Cyngar yn cynnig cyfleoedd cyffrous ar gyfer y dyfodol. Mae'n ardal ddeniadol i fyw, i weithio ac i weinidogaethu, ac mae ganddi gysylltiadau cyfathrebu da. Mae'r Ardal Weinidogaeth yn edrych i ddatblygu ei bywyd mewn ffyrdd a fydd yn atgyfnerthu'r cymorth a roddir i bawb ac yn galluogi cenhadaeth sy'n edrych mwyfwy tuag allan o ran tystio a gwasanaethu. Mae llawer o gyfleoedd i ymgysylltu â theuluoedd ac ysgolion yn ogystal ag offeiriadaeth ddinesig ffurfiol ar draws yr Ardal Weinidogaeth. Mae'r newidiadau dynamig yn sgil datblygiadau cymdeithasol ac economaidd ac esblygiad parhaus twristiaeth ar draws yr ardal yn gwahodd ffurfiau creadigol ar addoli ac ymgysylltu.

Mae yna bersondy modern sydd wedi'i gynnal yn dda yn Llangefni ar ystad dai Bro Ednyfed ar Lôn Talwrn ar gyrion y dref. Mae'n hawdd cyrraedd unrhyw le ar Ynys Môn o'r fan hon, yn ogystal â theithio i Gaergybi a chroesi i Ddulyn neu fynd ar draws y Fenai i weddill y DU.

# Proses Ymgeisio

Anfonwch eich CV ynghyd â llythyr cais at Archddiacon John Harvey, johnharvey@churchinwales.org.uk

Dylai eich CV amlinellu eich cymwysterau addysgol a hyfforddiant, a'ch hanes cyflogaeth.

Yn eich llythyr cais dylech, mewn dim mwy na dwy ochr A4, ddisgrifio yr hyn yr sy'n eich denu at y swydd, a pherthnasu eich sgiliau a phrofiad i fanyleb y person. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd am gyfweliad.

Am sgwrs anffurfiol am yr apwyntiad

Archddiacon John Harvey
07534 549682
johnharvey@churchinwales.org.uk

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

bangor.eglwysyngnghymru.org.uk